



Gwybodaeth i ymgeiswyr ar gyfer TAR Uwchradd TGCh a Chyfrifiadureg

Llongyfarchiadau!

Rydych wedi'ch gwahodd i gyfweiliad ar gyfer lle ar y rhaglen TAR Uwchradd TGCh a Chyfrifiadureg ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd – rydym yn edrych ymlaen yn fawr iawn i gael cwrdd â chi a chael clywed am yr hyn sydd gennych i'w gynnig yn ddarpar athro TGCh a Chyfrifiadureg uwchradd. Bydd y llythyr hwn yn rhoi gwybodaeth i chi am yr hyn y gofynnir i chi ei wneud yn ystod diwrnod y cyfweiliad a bydd hefyd yn rhoi syniad clir i chi ynglŷn â'r hyn rydym yn chwilio amdano mewn darpar athro TGCh a Chyfrifiadureg. Mae wedi'i ddylunio i'ch helpu i baratoi yn unol â hynny, i chi fod â'r cyfle gorau posib i fod yn llwyddiannus.

Bydd tair rhan i'r broses gyfweild, a allai gael eu cynnal mewn trefn wahanol i'r un a nodir.

Rhan 1

Byddwch yn gwneud profion mewn llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol. Bydd tasg ysgrifennu estynedig hefyd yn ymateb i erthygl ar bwnc addysgol; drwy hyn byddwn yn gallu asesu eich sgiliau darllen ac ysgrifennu. Byddwch yn derbyn yr erthygl cyn y diwrnod i chi gael paratoi, felly daliwch ar y cyfle i'w darllen yn drylwyr ac i ddeall y prif bwyntiau. Bydd y rhan hon o'r diwrnod yn para tua dwy awr.

Rhan 2:

Byddwch yn cymryd rhan mewn trafodaeth grŵp ar y pwnc isod:

Cwestiwn: A chithau'n athro sydd ag 'arbenigedd mewn TGCh a Chyfrifiadureg' ond sy'n cydnabod y byddwch hefyd yn helpu i gyflawni'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol ar draws y cwricwlwm, pa fath o sgiliau a rhinweddau rydych **chi'n** credu y dylem fod yn eu datblygu yn ein pobl ifanc?

Ymchwiliwch y dogfennau canlynol i gefnogi eich ateb:

- Dyfodol Llwyddiannus – y 4 diben craidd ac arweiniad drafft
- Y Fframwaith Cymhwysedd Digidol

Byddwn yn chwilio am:

- Lefel dda o gyfranogiad yn y dasg;
- Cyfathrebu a rhyngweithio clir gydag eraill;
- Defnyddio'ch arbenigedd yn y pwnc i gynhyrchu a chynnal eich pwynt;
- Ymatebion effeithiol i gwestiynau a barn pobl eraill, datblygu syniadau yn ôl fel y bydd hynny'n briodol a/neu gwestiynu neu herio'r hyn a glywch ar sail rheswm a/neu dystiolaeth.

Bydd **Rhan 3** yn cynnwys cyfweiliad unigol byr pryd y gallwch esbonio eich cymhellion i ddod yn athro TGCh a Chyfrifiadureg uwchradd, a dangos faint rydych yn deall rôl yr athro mewn ysgol brif ffrwd. Cewch gyfle hefyd i ofyn cwestiynau i ni fel y gallwch wneud dewis

gwybodus. Rydym am gael cyfle hefyd i sôn wrthyhch am ein prifysgol a'n rhaglen TAR Uwchradd gan ein bod yn credu bod llawer gennym i'w gynnig i athro dan hyfforddiant sy'n llawn awydd a dyhead ac rydym yn teimlo'r un mor gyffrous â chithau ynglŷn â'ch dyfodol!

Edrychwn ymlaen i gael cwrdd â chi yn y cyfweiliad a dymunwn bob hwyl i chi ar y diwrnod. A wnewch chi gyrraedd 15 munud cyn yr amser a nodwyd er mwyn i ni gael dechrau'r rhaglen yn brydlon.

Dymuniadau gorau

Jason Davies

Arweinydd Rhaglen TAR Uwchradd Celf a Dylunio, D&T a TGCh a Chyfrifiadureg Prifysgol Metropolitan Caerdydd



Met Caerdydd yw'r darparwr TAR Uwchradd mwyaf yng Nghymru ac un o'r mwyaf yn y DU. Yn ogystal, mae'n un o 4 prifysgol yn unig i gael eu hachredu ar gyfer Addysg Gychwynnol i Athrawon yng Nghymru o fis Medi 2019: <https://www.ewc.wales/site/index.php/en/ite-accreditation/providers-of-initial-teacher-education-in-wales-from-2019.html>

I gael rhagor o wybodaeth am ein cwrs, ewch i:

<http://www.cardiffmet.ac.uk/education/courses/Pages/Secondary-PGCE.aspx>

Arolwg
Profiad a
Addysgwyd
Uwchraddedigion

Postgraduate
Taught
Experience
Survey

Ansawdd y dysgu a'r addysgu - 90%

Boddhad â'r cwrs - 92%

Boddhad â'r lleoliadau ysgol - 98%

Cyfradd lwyddo 100%

Mae 95% o'n hathrawon dan hyfforddiant yn cael swydd yn y sector (Arolwg DHLE 16/17)